# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Gruffydd Williams**

**Grŵp: Llais Gwynedd yn ystod 2014/15, Plaid Cymru Mai 2015 ymlaen**

**Ward: Nefyn**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Aelod lleol dros Nefyn
Aelod o Gyngor Tref Nefyn
Cadeirydd Pwyllgor Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn
Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Cymunedol.
Aelod o Bwyllgor Mynediad Arfon a Dwyfor

**Gweithgareddau etholaethol:**

- Rwyf wedi bod yn gweithio ar brosiect i wella safonau llwybrau cyhoeddus yr ardal gyda Chynghorwyr eraill Cyngor Tref Nefyn trwy grwydro ar eu hyd. Llwyddom i ddenu bron i £300,000 o grant ar gyfer hynny.
- Ar y cyd gyda rhieni plant Nefyn rydym wedi dwyn perswâd ar Gyngor Gwynedd i ddarparu llwybr diogel i'r Ysgol.
- Gweithiais ar brosiect i wella Y Groes a llwyddais i ddenu £9,000.00 ar gyfer seti newydd a ffens unigryw.
- Sicrhais rhandiroedd i drigolion Nefyn, prosiect gwerth £7,000.
- Llwyddiais i ddenu tua £3000 i blannu coed afalau Enlli yn y dref
- Ar y cyd ag eraill llwyddais i sefydlu Menter Llyn yn ogystal â Siop Siarad. Mae'r Siop Siarad yn lle i blant yn eu harddegau ymgasglu min nos a defnyddio cyfrifiaduron yn ogystal â lle i bobl ddi-waith ddod i ddefnyddio cyfrifiaduron
- Rwyf wedi bod yn cynnal trafodaethau a phwyso ar Gyngor Gwynedd i ail dario'r lonydd yn Hen Dref Nefyn, ac i wneud gwelliannau i 'r lon rhwng Nefyn a Phistyll er diogelwch y trigolion lleol ar ymwelwyr
- Rwyf wedi bod yn brysur yn ceisio cael cae chwarae i Dîm Pêl-droed Benwaig Nefyn ym Mryn Mynach. Ar hyn o bryd, ar y cyd hefo fy nghyd aelodau ar y Cyngor Tref, rydym wedi casglu £35,000 drwy wahanol ffynonellau. Rydym wedi llwyddo i gael cymhorthdal gwerth £15,000 o Fantell Gwynedd a Cist. Byddwn nawr yn mynd ati i weithio tuag at gael cae chwarae aml-ddefnydd o safon yma yn Nefyn.
- Yn ddiweddar rwyf wedi treulio llawer o amser yn ceisio sicrhau dyfodol llyfrgell Nefyn.
- Rwy'n gweithio gydag eraill i geisio sicrhau cymhorthdal i adfywio hen byllau clai a helyg yr ardal. Y bwriad ydy cynnwys ysgolion lleol y cylch yn y prosiect a defnyddio offer technegol, gazibos a chreu mannau dehongli natur .

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Llywodraethwr Ysgol Nefyn
Aelod o Bwyllgor Cist Gwynedd / Chwaraeon Cymru

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 4 |
| Pwyllgor Cynllunio | 14 |
| Pwyllgor Iaith | 3 |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llyn | 2 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau | 3 |
| Pwyllgor Ardal Dwyfor | 3 |

Canran Presenoldeb: 85%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Ymchwiliad Craffu - Cludiant Ol-16 i Addysg Bellach
Pwyllgor Ardal Dwyfor

| **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:** | **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:** |
|---|---|
| Ysgol Nefyn (Llywodraethwr) | Ysgol Nefyn (Llywodraethwr) |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Hyfforddiant i Aelodau ac Eilyddion o'r Pwyllgor Cynllunio | 26/11/2014 |

| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| | |

Cyfanswm nifer o oriau: 2.5 awr